

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Fideo gynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2020

Amser: 13.00 – 14.02

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6093) yn:

<http://senedd.tv/cy/6093>

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Lynne Neagle AS (Cadeirydd) Dawn Bowden AS Hefin David AS Suzy Davies AS Janet Finch–Saunders AS Siân Gwenllian AS
Tystion:	Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg Steve Davies, Llywodraeth Cymru Huw Morris, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Llinos Madeley (Clerc) Tanwen Summers (Ail Clerc)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir cyntaf y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
- 1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

- 1.3 Nododd y Cadeirydd, pe bai hi am unrhyw reswm yn gadael y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y bydd Dawn Bowden AC yn dod yn Gadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.
- 1.4 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Bu'r Aelodau yn holi'r Gweinidog Addysg a'i swyddogion am Covid-19 a'i effaith ar blant, ar bobl ifanc ac ar fyfyrwyr, ac ymateb ei hadran hyd yma i'r pandemig.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Covid-19: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn graffu. Cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog i gael rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn.